Ysgol Plas Coch
Fforddd Stansty
Wrecsam
LL11 2BU
Ffôn: 01978 311198
Ffacs: 01978 311198

Ysgol Plas Coch
Stansty Road
Wrexham
LL11 2BU
Tel: 01978 311198
Fax: 01978 311198

YSGOL PLAS COCH

Mr Osian Jones BA
***Pennaeth* Head Teacher**
https://ysgolplascoch.cymru
mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk

Gorffennaf 7fed 2019

I sylw rhieni a gwarchodwyr dosbarthiadau Clywedog, Dyfrdwy a Glyndwr

Bydd yna ychydig o newidiadau staffio, perthnasol i'r dosbarthiadau uchod, yn digwydd cyn diwedd y tymor gyda staff yn dychwelyd oddi ar gyfnodau mamolaeth. Dyma'r manylion:

Dosbarth Glyndwr: Bydd Mrs Ffion Yaxley-Murray yn dychwelyd i'r gwaith ar ddydd Gwener, Gorffennaf 19eg gan olygu mai diwrnod olaf Mr Dylan Jones fel athro ar ddosbarth Glyndwr fydd Dydd Iau, Gorffennaf 18fed.

Dosbarth Dyfrdwy: Bydd Miss Carys Williams yn dychwelyd i'r gwaith ar ddydd Llun, Gorffennaf 15fed gan olygu mai diwrnod olaf Miss Siân Moreton fel athrawes ar ddosbarth Dyfrdwy fydd Dydd Gwener, Gorffennaf 12fed.

Dosbarth Clywedog: Gan y bydd Miss Siân Moreton yn gorffen fel athrawes ar ddosbarth Dyfrdwy ar Orffennaf 12fed (gweler uchod), bydd yn dychwelyd i'w rôl wreiddiol fel athrawes dosbarth Clywedog am wythnos olaf y tymor, o Orffennaf y 15fed ymlaen. Golyga hyn mai diwrnod olaf Miss Emma Lloyd fel athrawes ar ddosbarth Clywedog fydd dydd Gwener, Gorffennaf 12fed.

Hefyd, bydd Mrs Gemma Allen yn dychwelyd i'r gwaith fel cymhorthydd yn nosbarth Clywedog ar ddydd Llun, Gorffennaf 15fed gan olygu mai diwrnod olaf Miss Gemma Hughes fel cymhorthydd efo Clywedog fydd dydd Gwener, Gorffennaf 12fed.

Tra'n croesawu Mrs Yaxley-Murray, Miss Williams, a Mrs Allen yn ôl i'r ysgol, rydym yn ddiolchgar iawn i Mr Dylan Jones, Miss Emma Lloyd a Miss Gemma Hughes am eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf ac yn dymuno'n dda iddynt i'r dyfodol.

Diolch yn fawr,

Osian Jones